**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU'R AMGYLCHEDD A'R ECONOMI**
**DYDD MAWRTH, 8 RHAGFYR 2020**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a'r Economi Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Remote Meeting Dydd Mawrth, 8 Rhagfyr 2020

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Rosetta Dolphin (Cadeirydd)**
Cynghorwyr: Sean Bibby, David Evans, George Hardcastle, Patrick Heesom, Cindy Hinds, Dennis Hutchinson, Joe Johnson, Vicky Perfect, Paul Shotton ac Owen Thomas

**EILYDD**: Y Cynghorydd Christopher Dolphin ar ran y Cynghorydd Kevin Hughes

**YMDDIHEURIADAU**: Y Cynghorydd Kevin Hughes

**HEFYD YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd Haydn Bateman

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Carolyn Thomas, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Strydlun a Chefn Gwlad; Y Cynghorydd Chris Bithell, Aelod Cabinet Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd; Y Cynghorydd Derek Butler, Aelod Cabinet Datblygu Economaidd, Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi); Prif Swyddog (Strydlun a Thrafnidiaeth), Rheolwr Trafnidiaeth, a'r Rheolwr Cyflenwi Gwasanaethau

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd a'r Economi, a'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

## 20. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Dim.

## 21. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Hydref 2020.

Cynigiodd y Cynghorydd Paul Shotton y dylid cymeradwyo'r cofnodion ac eiliwyd gan y Cynghorydd Owen Thomas.

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Tachwedd 2020.

Diolchodd y Cynghorydd Owen Thomas i'r Prif Swyddog (Strydlun a Thrafnidiaeth) am ei ddiweddariad ar y cynnydd yn ymwneud â llwybr beiciau Rhydymwyn – yr Wyddgrug.

Cynigiodd y Cynghorydd Owen Thomas y dylid cymeradwyo'r cofnodion ac eiliwyd gan y Cynghorydd Joe Johnson

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir i'w llofnodi gan y Cadeirydd.

## 22. BRIFFIO YNGHYLCH SEFYLLFA FRYS (LLAFAR)

Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad am y sefyllfa bresennol a chyfeiriodd at y rhaglen frechu ranbarthol. Esboniodd fod disgwyl rhagor o newyddion ar 17 Rhagfyr gan Brif Weinidog Cymru ynglŷn ag addasu'r cyfyngiadau presennol ar y sector lletygarwch. Dywedodd fod y cynnydd diweddar mewn achosion newydd o Covid ar draws Cymru (yn enwedig yn ne Cymru) yn destun pryder a gallai hyn arwain at ragor o gyfyngiadau yn dod i rym yn ystod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd. Gan gyfeirio at ddadansoddiad o'r data, esboniodd fod Sir Fflint wedi gweld cynnydd graddol yn nifer yr achosion o'r haint dros y dyddiau diwethaf ond nid oedd yn gynnydd sylweddol, a dywedodd fod y rhan fwyaf o brofion positif yn deillio o leoliadau yn y gymuned.

Roedd capasiti'r GIG yng ngogledd Cymru yn sefydlog ac roedd nifer y bobl oedd yn mynd i'r ysbyty oherwydd Covid yn sefydlog ar raddfa wythnosol. Rhoddodd ddiweddariad ar y sefyllfa bresennol a'r capasiti yn Ysbyty'r Enfys, Glannau Dyfrdwy, a dywedodd mai'r bwriad oedd defnyddio'r ysbyty fel canolfan ar gyfer y rhaglen frechu torfol gyda chymorth gan nifer o ganolfannau brechu lleol ar draws gogledd Cymru. Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad byr ar yr wybodaeth a'r trefniadau diweddaraf ynglŷn â'r rhaglen frechu yng Nghymru ac ar hyn o bryd roedd disgwyl y byddai'n cymryd 6-8 mis i'w chwblhau.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd George Hardcastle, rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad ar y sefyllfa yn Ysbyty'r Enfys, Glannau Dyfrdwy, gan gyfeirio at y sylwadau cadarnhaol a dderbyniwyd gan staff a chleifion. Dywedodd fod yr holl gleifion sydd yn Ysbyty'r Enfys ar hyn o bryd yn bobl sydd wedi cael eu rhyddhau o'r ysbyty ac sy'n gwella.

**PENDERFYNWYD:**

Nodwyd y sylwadau uchod.

## 23. AMRYWIO TREFN BUSNES

Dywedodd y Cadeirydd y byddai eitem 10 ar y rhaglen: 'Adborth ar Gynigion Llywodraeth Cymru i Gyflwyno Cyd-bwyllgorau Corfforaethol' yn cael ei symud ymlaen. Cynigiwyd hyn gan y Cynghorydd George Hardcastle ac eiliwyd gan y Cynghorydd Owen Thomas

## 24. ADBORTH AR GYNIGION LLYWODRAETH CYMRU I GYFLWYNO CYD-BWYLLGORAU CORFFORAETHOL

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad yn gofyn am sylwadau ar gynigion Llywodraeth Cymru i gynnwys yr adolygiad o'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a'r cynigion i gyflwyno Cyd-bwyllgorau Corfforaethol. Cyflwynodd wybodaeth gefndir a chyfeiriodd at adran 1.12 yn yr adroddiad gan ddweud nad oedd yr Awdurdod yn gwrthwynebu mewn egwyddor y cynnig i sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforaethol, fel dewis gwell ar gyfer ad-drefnu llywodraeth leol yng Nghymru a'r cost a'r amhariad fyddai'n deillio o hynny. Fodd bynnag, roedd pryderon ynglŷn â chylch gorchwyl a swyddogaeth y Cyd-bwyllgorau ar y dechrau ac unrhyw bwerau yn y dyfodol, a'r effaith ar gapasiti lleol i gyflawni a rheoli swyddogaethau a chynlluniau lleol. Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at ymatebion pellach y Cyngor i'r papur ymgynghorol ar y cynigion fel y nodir yn yr adroddiad.

Dywedodd y Prif Swyddog (Cynllunio, Yr Amgylchedd a'r Economi) mai'r dyddiad cau ar gyfer derbyn sylwadau ar ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Cyd-bwyllgorau oedd 4 Ionawr 2021. Dywedodd y byddai'r Cyd-bwyllgorau yn cynnwys y chwe awdurdod lleol yng ngogledd Cymru, a Pharc Cenedlaethol Eryri. Esboniodd y byddai gan y Cyd-bwyllgorau y swyddogaethau cysylltiedig canlynol: gwella Datblygu Economaidd a Lles; Cynllunio Strategol, a Chynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol. Cyflwynodd drosolwg o'r ddwy swyddogaeth gyntaf a dywedodd fod y Cyngor yn cefnogi'r cynigion mewn egwyddor ond ei fod yn pryderu ynglŷn ag amserlenni, cyllid a materion eraill.

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Strydlun a Thrafnidiaeth) wybodaeth gefndir gan adrodd ar sefyllfa'r Cyngor mewn ymateb i'r cynigion o safbwynt cynllunio trafnidiaeth. Roedd y Cyngor yn gefnogol mewn egwyddor i'r cynigion fel model rhanbarthol ond roedd ganddo rywfaint o bryderon fel y nodwyd yn yr adroddiad.

Dywedodd y Cynghorydd Carolyn Thomas fod y Strategaeth Drafnidiaeth Newydd wedi cael ei chyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Dywedodd ei bod hi wedi mynegi pryderon yn rheolaidd ynglŷn â chadw arian ac adnoddau yn lleol, ond roedd yn cefnogi ymagwedd ranbarthol ar gyfer llwybrau rheilffyrdd a bysiau strategol. Hefyd, mynegodd ei phryderon ynglŷn â'r goblygiadau wrth benodi swyddogion ar gyfer y Cyd-bwyllgorau o'r awdurdodau lleol ar gyfer pob rhanbarth, a disgwyliad Llywodraeth Cymru oedd y byddai'r rolau yn gofyn am ymrwymiad o 1-5 diwrnod yr wythnos. Pwysleisiodd yr angen i gadw gwybodaeth gwerthfawr y swyddogion lleol.

Mynegodd y Cynghorydd Chris Bithell bryderon ynglŷn ag amserlenni ac anawsterau posibl a fyddai'n gysylltiedig â datblygu Cynllun Datblygu Strategol rhanbarthol.

Siaradodd y Cynghorydd Patrick Heesom ynglŷn â'r angen am seilwaith trafnidiaeth i fodloni gofynion economaidd a chymdeithasol Sir y Fflint.

Ymatebodd y Prif Weithredwr i sylwadau'r Aelodau a chytunodd fod angen osgoi dyblygu gweinyddiaeth a chostau a rhoddodd enghraifft o sut gellid osgoi hyn.

Ategodd y Cynghorydd Carolyn Thomas yr angen i adrodd pryderon yr Awdurdod am y cynigion yn ôl i Lywodraeth Cymru ar faterion adnoddau, ariannu, a'r angen i gadw gwybodaeth a phrofiad swyddogion lleol.

Mewn ymateb i'r pryderon a godwyd gan y Cynghorydd Patrick Heesom ynglŷn ag effaith Brexit ar borthladd Caergybi, esboniodd y Prif Weithredwr fod gwaith mawr yn cael ei wneud ar lefel rhanbarthol yn ymwneud â chapasiti rheoli ffiniau a pharcio dros dro.

Esboniodd y Prif Swyddog (Strydlun a Thrafnidiaeth), yn dilyn cymeradwyo a chytuno ar y strategaeth drafnidiaeth genedlaethol, y byddai angen adolygu cynlluniau a pholisïau trafnidiaeth lleol a byddent yn dod gerbron y Pwyllgor hwn i dderbyn sylwadau cyn derbyn cymeradwyaeth y Cabinet.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Derek Butler at y trefniadau a oedd eisoes yn eu lle ac yn gweithio ar lefel rhanbarthol, a phwysleisiodd yr angen i gyflwyno achos i Lywodraeth Cymru am gyllid ar gyfer y Cyd-bwyllgorau Corfforaethol.

Cynigiwyd yr argymhelliad gan y Cynghorydd Joe Johnson ac eiliwyd gan y Cynghorydd Paul Shotton

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r ymateb i gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforaethol mewn perthynas â'r swyddogaeth trafnidiaeth strategol, y swyddogaeth datblygu economaidd, a'r cynigion ar gyfer llunio Cynllun Datblygu Strategol fel y nodwyd yn yr adroddiad ac yn ymateb y Grŵp Strategaeth Gynllunio.

## 25. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL A OLRHAIN GWEITHRED

Cyflwynodd yr Hwylusydd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol bresennol. Cyfeiriodd at y Gweithdai Ffosydd a Chyrsiau Dŵr a gynhelir ar 16 Rhagfyr, a dywedodd y byddai'r Gweithdai Rhaglen Ddigidol o'r Bwrdd Uchelgais Economaidd yn cael eu cynnal ar 12 Ionawr 2021. Soniodd am yr eitemau a restrir i'w hystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor i'w gynnal ar 12 Ionawr 2021 a dywedodd y byddai eitem ychwanegol ar Strategaeth Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn cael ei chynnwys ar raglen y cyfarfod.

Dywedodd yr Hwylusydd fod cais wedi cael ei wneud i ychwanegu eitem i'r Rhaglen ar bwyntiau gwefru ceir trydan yn y Sir i'w ystyried yn y dyfodol.

Gan adrodd ar y cynnydd ar gamau gweithredu o'r cyfarfodydd blaenorol dywedodd yr Hwylusydd fod tri cham gweithredu yn dal heb eu cwblhau ac roedd cynnydd yn parhau.

Cynigiwyd yr argymhellion gan y Cynghorydd Chris Dolphin ac eiliwyd gan y Cynghorydd Paul Shotton.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol;

(b) Awdurdodi'r Hwylusydd, mewn ymgynghoriad gyda Chadeirydd y Pwyllgor, i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a

(c) Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth gwblhau'r camau gweithredu sy'n weddill.

## 26. DIWEDDARIAD AR GYNLLUN BEICIO YR WYDDGRUG I FRYCHDYN A DATBLYGU RHWYDWAITH BEICIO CRAIDD Y SIR

Esboniodd y Rheolwr Trafnidiaeth mai amcan cychwynnol yr adroddiad oedd rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar Gynllun y Llwybr Beicau o'r Wyddgrug i Frychdyn, fodd bynnag, oherwydd y diddordeb a fynegwyd yn ystod y cyfnod Craffu ar ddyheadau Teithio Llesol strategol ehangach y Cyngor, ehangwyd ar yr adroddiad i gynnwys diweddariad ar gynnydd a wnaed i ddatblygu Rhwydwaith Llwybrau Beiciau 'craidd' y Sir. Cyfeiriodd hefyd at y cyfle i ehangu cylch gorchwyl Cynllun Llwybr Beicau yr Wyddgrug i Frychdyn i gynnwys Caer fel pen draw'r daith ac i ofyn am gefnogaeth y Pwyllgor i gyflwyno cais i ailfrandio'r cynllun a'i alw yn 'Cynllun Llwybr Strategol yr Wyddgrug i Gaer' fel cais Teithio Llesol Strategol i Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

Cyflwynodd y Rheolwr Trafnidiaeth wybodaeth gefndir a rhoddodd drosolwg byr o'r rhwydwaith llwybrau beiciau cenedlaethol a diweddariad ar gynllun beicio'r Wyddgrug. Esboniodd fod datblygu rhwydwaith beicio strategol fel yr amlinellir yn gwneud teithio llesol yn ddewis ymarferol a oedd yn galluogi pobl i deithio i'w gwaith, a chael mynediad at gyfleusterau hamdden a thwristiaeth, nid yn unig yn y Sir ond yn Lloegr hefyd. Ategodd y Prif Swyddog (Strydlun a Thrafnidiaeth) y sylwadau a fynegwyd gan y Rheolwr Trafnidiaeth o ran y cyfleoedd a ddaw yn sgil datblygu rhwydwaith beicio cenedlaethol a dywedodd mai'r gobaith oedd y byddai'n dod mor gyfarwydd ac yn cael ei ddefnyddio i'r un graddau â'r map ffordd yn Sir y Fflint.

Mynegodd y Cynghorydd George Hardcastle bryderon ynglŷn â thorri coed yn ardal Aston Hill. Hefyd, mynegodd ei bryderon nad oedd unrhyw rwystrau i amddiffyn defnyddwyr y llwybr beiciau ar Aston Hill. Roedd y Prif Swyddog yn derbyn y pryderon a fynegwyd a dywedodd y byddai'n siarad yn uniongyrchol gyda'r Asiantaeth Cefnffyrdd i sicrhau bod yr un broses ymgynghorol yn cael ei dilyn â'r un a ddilynwyd gan yr Awdurdod.

Diolchodd y Cynghorydd Carolyn Thomas i'r swyddogion am eu gwaith ar y strategaeth drafnidiaeth. Roedd yn cytuno â'r safbwyntiau a fynegwyd gan y Cynghorydd Hardcastle ar yr angen i'r Asiantaeth Cefnffyrdd ymgynghori'n llawn.

Hefyd, mynegodd y Cynghorydd Dennis Hutchinson ei ddiolchiadau i swyddogion am eu gwaith caled ar Rwydwaith Llwybrau Beiciau Craidd y Sir, a dywedodd hefyd ei fod am gydnabod cymorth a chydweithrediad Alistair Stubbs, Pennaeth Ysgol Uwchradd Elfed, ar y cyngion ar gyfer datblygu. Mynegodd y Cynghorydd Hutchinson bryderon ynglŷn â phriffordd leol yn ei Ward. Ymatebodd y Prif Swyddog i'r pwyntiau a wnaed a dywedodd y byddai'n rhoi ymateb mwy manwl i'r Cynghorydd Hutchinson yn dilyn y cyfarfod ar y cynigion ar gyfer creu llwybr cyswllt o Fwcle at lwybr beicio dynodedig ar y ffordd.

Cyfeiriodd y Cynghorydd David Evans at y Llwybrau Beiciau Cyswllt Strategol rhwng yr Wyddgrug a Pharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy a gofynnodd am eglurder o ran sut byddai'n bosibl cael mynediad ar draws Pont Sir y Fflint os mai

dyma'r llwybr bwriedig. Siaradodd o blaid y cynigion lleol pellach a oedd yn cael eu croesawu. Rhoddodd y Prif Swyddog ddiweddariad ar y broses ymgynghori a oedd yn cael ei chynnal ar y cynigion ar gyfer y llwybr cyswllt rhwng Sandycroft a Brychdyn, a'r llwybr cyswllt rhwng yr Wyddgrug a'r Fflint a Pharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy.

Cynigiwyd yr argymhellion gan y Cynghorydd Christopher Dolphin ac eiliwyd gan y Cynghorydd Dennis Hutchinson

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma ar Gynllun Llwybrau Beicio Strategol yr Wyddgrug i Frychdyn, gan gynnwys datblygu cynlluniau Teithio Llesol Strategol y Sir ar Rwydwaith Llwybrau Beiciau Craidd y Sir; a

(b) Nodi'r cyfle i ymestyn cylch gorchwyl Cynllun Llwybr Beiciau yr Wyddgrug i Frychdyn i gynnwys Caer fel pen draw'r llwybr a chefnogi'r cynnig i ailfrandio a chyflwyno 'Cynllun Llwybr Beicio Strategol yr Wyddgrug i Gaer' fel cais Teithio Llesol Strategol y Cyngor i Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

## 27. DIWEDDARIAD STRATEGAETH ADFERIAD (PORTFFOLIO CYNLLUNIO, AMGYLCHEDD AC ECONOMI)

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) adroddiad i roi trosolwg o'r cynllunio adferiad ar gyfer meysydd portffolio'r Pwyllgor. Cyflwynodd y Prif Swyddog wybodaeth gefndir ac esboniodd fod fersiynau wedi'u diweddaru o'r gofrestr risg a chamau lliniaru risg ar gyfer y Portffolio Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi ynghlwm â'r adroddiad.

Dywedodd y Prif Swyddog fod diweddariad hefyd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad ar y cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o 14 amcan adferiad y portffolio. Cyfeiriodd at gynnydd ym maes cydymffurfiaeth gyda'r Cynllun Datblygu Newydd, cefnogaeth i amddiffyn canol trefi lleol, cymunedau a busnesau gyda dyletswyddau statudol a gorfodaeth mewn perthynas â Covid-19, lladdwr yr ynn, ac adfer y swyddogaeth Rheoli datblygu.

Cyflwynodd y Prif Swyddog wybodaeth am y newidiadau i'r gofrestr risg ddiweddaraf a oedd wedi'i hatodi i'r adroddiad a chyfeiriodd at y risgiau canlynol: PE02, PE13, PE14, a PE16.

Cynigiwyd yr argymhellion gan y Cynghorydd Dennis Hutchinson ac eiliwyd gan y Cynghorydd George Hardcastle.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â chynllunio adferiad ar gyfer y portffolios Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi; a

(b) Bod cynnwys cofrestr risg ddiweddaraf y portffolio a'r camau lliniaru wedi'u nodi.

## 28. <u>DIWEDDARIAD STRATEGAETH ADFERIAD (PORTFFOLIO STRYD A CHLUDLIANT)</u>

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Strydlun a Thrafnidiaeth) adroddiad yn rhoi trosolwg o'r gwaith cynllunio adferiad ar gyfer maes portffolio'r Pwyllgor. Cyflwynodd wybodaeth gefndir ac esboniodd fod y fersiwn ddiweddaraf o'r gofrestr risg a set o gamau i liniaru risg ar gyfer y portffolio Strydlun a Thrafnidiaeth ynghlwm â'r adroddiad.

Hefyd, dywedodd y Prif Swyddog fod diweddariad yn yr adroddiad ar gyfer pob un o 9 amcan adferiad y portffolio. Cyfeiriodd at gynnydd ym mherfformiad ailgylchu, datblygu seilwaith gwastraff i gefnogi'r potensial i gynyddu ailgylchu, a chynnal y rhwydwaith priffyrdd dros y gaeaf.

Cyflwynodd y Prif Swyddog adroddiad ar y newidiadau yn y gofrestr risg ddiweddaraf a fyddai'n cael ei chylchredeg i aelodau'r Pwyllgor yn dilyn y cyfarfod, a chyfeiriodd at arian gan Lywodraeth Cymru am golli incwm o feysydd parcio oherwydd cyfyngiadau Covid-19; lles gweithwyr cyflogedig, materion yn ymwneud â chydymffurfiaeth wrth ailgylchu defnyddiau gwastraff, a pharatoadau i ymateb i sefyllfaoedd brys.

Diolchodd y Cynghorydd Carolyn Thomas i'r holl staff yn yr adran Strydlun a Thrafnidiaeth am eu gwaith caled yn ystod y pandemig. Roedd y Cadeirydd hefyd yn dymuno diolch i'r Prif Swyddog a'i staff am eu gwaith o dan amodau anodd iawn.

Gofynnodd y Cynghorydd Dennis Hutchinson am ddiweddariad ar yr Orsaf Trosglwyddo Gwastraff Safonol, a dywedodd y Prif Swyddog y byddai'r tir yn wag cyn y Nadolig gyda'r gobaith o gael adeilad newydd erbyn mis Mehefin/Gorffennaf a fyddai'n weithredol cyn diwedd yr haf 2021. Byddai'r cyfleuster newydd yn cynnwys canolfan addysg a byddai Aelodau'r Pwyllgor yn cael eu gwahodd i ymweld â'r ganolfan ar ôl iddi gael ei chwblhau.

Mewn ymateb i bryderon pellach a godwyd gan y Cynghorydd Hutchinson ynglŷn â marciau ffordd, esboniodd y Prif Swyddog y byddai unrhyw ddiffygion yn cael eu nodi gan gydlynwyr stryd lleol yn ystod archwiliadau o'r priffyrdd ac y byddai contractwr arbenigol yn dod i mewn i gyflawni rhaglen waith. Awgrymodd y dylai'r Cynghorydd Hutchinson godi'r diffygion penodol roedd yn gwybod amdanynt gyda'i gydlynydd Strydlun lleol er mwyn gweithredu arnynt.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd George Hardcastle, rhoddodd y Prif Swyddog ddiweddariad ar drefniadau cynnal y gaeaf, a chadarnhaodd fod stoc o halen carreg yn weddill ar gyfer cyfnod y gaeaf. Diolchodd y Cynghorydd Hardcastle i'r Prif Swyddog a'i dîm am eu gwaith caled yn ystod misoedd y gaeaf.

Cynigiwyd yr argymhelliad gan y Cynghorydd Christopher Dolphin ac eiliwyd gan y Cynghorydd Joe Johnson.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd a wnaed i gefnogi Strategaeth Adferiad y portffolio Strydlun a Thrafnidiaeth.

## 29. DIWEDDARIAD AR STORFA DEPO ALLTAMI

Cyflwynodd y Rheolwr Cyflenwi Gwasanaethau adroddiad i roi diweddariad ar y cynnydd yn dilyn adroddiad blaenorol a gyflwynwyd gerbron y Pwyllgor ym mis Chwefror 2020 yn unol ag argymhellion y Pwyllgor. Rhoddodd wybodaeth gefndir a chyfeiriodd at ddatblygu system rheoli stoc electronig newydd gyda'r nod o symleiddio materion yn ymwneud â rheoli stoc a rhoi mwy o atebolrwydd a swyddogaethau adrodd. Y disgwyl oedd y byddai'r system newydd yn weithredol erbyn diwedd mis Mawrth 2021 ac yn y cyfamser byddai'r gwaith o reoli stoc yn parhau i gael ei gyflawni ar system bapur i sicrhau bod yr holl eitemau stoc yn cael eu cyflenwi a'u cofnodi ar y system Tranman.

Hefyd, cyflwynodd y Rheolwr Cyflenwi Gwasanaethau adroddiad ar y gwaith a wnaed i nodi lleoliad yr holl beiriannau ac offer, gan gynnwys offer a gedwir ar safleoedd pell, a dywedodd fod rhestr eiddo ganolog o'r holl beiriannau yn cael ei diweddaru'n ddyddiol a bod yr holl eitemau'n cael eu cofrestru a'r defnydd ohonynt yn cael eu hawdurdodi gan Oruchwylwyr. Fel rhan o'r gwaith hwn, esboniodd fod y gwasanaeth wedi defnyddio grŵp o gydrannau caledwedd a meddalwedd a oedd yn golygu bod modd casglu, trefnu, a dadansoddi data ynglŷn â risgiau i iechyd o ddirgryniad llaw-braich (*HAV:Hand Arm Vibration*) yn gysylltiedig â'r defnydd o offer dirgrynol. Roedd y feddalwedd yn sicrhau bod y Cyngor yn glynu at ofynion cyfreithiol ym maes iechyd a diogelwch yn y gweithle, a bod modd pennu maint dirgryniadau sy'n cynrychioli'r gwir allyriadau dirgyniad sy'n gymwys wrth ddefnyddio offer.

Dywedodd y Rheolwr Cyflenwi Gwasanaethau fod cynllun gweithredu (a oedd ynghlwm â'r adroddiad) wedi cael ei gyflwyno i sicrhau bod trefniadau a phrosesau gwaith yn dal i gael eu dilyn yn y Gwasanaeth a chyfeiriodd at y camau gweithredu allweddol a nodir yn yr adroddiad.

Cynigiwyd yr argymhelliad gan y Cynghorydd Christopher Dolphin ac eiliwyd gan y Cynghorydd Paul Shotton.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y trefniadau gwaith parhaus yn storfeydd depo Strydlun a Thrafnidiaeth yn cael eu nodi a bod y camau a gymerwyd i reoli defnyddiau, peiriannau ac offer a gedwir yn y storfeydd yn cael eu cefnogi.

## 30. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG A OEDD YN BRESENNOL

Roedd un aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 am a daeth i ben am 12.00 pm)

……………………………………….

**Cadeirydd**